



# Adroddiad y Comisiwn Cymunedau Cymraeg ar Gynllunio Gwlad a Thref

Comisiwn Cymunedau Cymraeg  
Chwefror 2025

## Trosolwg

Sefydlwyd y Comisiwn Cymunedau Cymraeg gan Lywodraeth Cymru yn sgil cyhoeddi adroddiad *Ail Gartrefi: Datblygu Polisiau Newydd yng Nghymru*. Amlygodd yr adroddiad hwnnw fod ein cymunedau Cymraeg yn wynebu heriau strwythurol. Gofynnodd Llywodraeth Cymru i'r Comisiwn i'w helpu i ddatblygu polisi cyhoeddus ar gyfer cynnal ein hiaith mewn cymunedau Cymraeg fel yng ngweddill Cymru. Cyflwynodd y Comisiwn ei adroddiad cyntaf *Grymuso cymunedau, cryfhau'r Gymraeg* ym mis Awst 2024. Ymrwymodd y Comisiwn yno i gyhoeddi adroddiad ar wahân yn ymwneud â Chynllunio Gwlad a Thref oherwydd cymhlethdod polisi yn y maes, ac er mwyn sicrhau fod y pwnc yn cael sylw dyladwy.

## Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:

Is-adran Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru

Doc Fictoria

CAERNARFON

Gwynedd

LL55 1TH

e-bost: [Cymraeg2050@llyw.cymru](mailto:Cymraeg2050@llyw.cymru)

## Copiau ychwanegol

Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan

Llywodraeth Cymru yn

[Llyw.Cymru/Comisiwn-Cymunedau-Cymraeg](http://Llyw.Cymru/Comisiwn-Cymunedau-Cymraeg)

## Cynnwys

Rhagair y Cadeirydd.....	2
1. Cyflwyniad .....	3
2. Ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch .....	6
3. Ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch	10
4. Newidiadau eraill i <i>Polisi Cynllunio Cymru</i> .....	12
5. Newidiadau eraill i <i>Nodyn Cyngor Technegol 20</i> .....	15
6. Adolygiad ehangach o Nodiadau Cyngor Technegol eraill .....	16
7. Adolygu <i>Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040</i> .....	17
8. Adolygu'r <i>Llawlyfr Cynlluniau Datblygu</i> .....	18
9. Gwella hyfforddiant.....	20
10. Rhestr argymhellion.....	21

## Rhagair y Cadeirydd

Braint yw cyflwyno i Lywodraeth Cymru adroddiad y Comisiwn Cymunedau Cymraeg ar Gynllunio Gwlad a Thref. Pan gyhoeddodd y Comisiwn ym mis Awst 2024 ei adroddiad ar gymunedau sydd â dwysedd uwch o siaradwyr Cymraeg, *Grymuso cymunedau, cryfhau'r Gymraeg*, ymrwymodd i gyhoeddi adroddiad ar wahân am gynllunio. Roedd hyn yn adlewyrchu ein hargyhoeddiad fod Cynllunio Gwlad a Thref yn greiddiol i ddyfodol y Gymraeg fel iaith gymunedol ac angen sylw neilltuol. Ar yr un pryd, roedd hi'n amlwg y byddai angen ailedrych ar nifer o bolisiau cenedlaethol o safbwynt Cymru gyfan.

Wrth wneud ein gwaith, derbyniodd y Comisiwn lawer iawn o dystiolaeth am gynllunio oddi wrth awdurdodau cynllunio, cyrff proffesiynol, sefydliadau sy'n weithgar mewn cymdeithas sifil a'r cyhoedd. Carwn ddiolch i bawb a gyflwynodd dystiolaeth ac a gyfrannai i'n trafodaethau. Roeddem yn neilltuol o ffodus o gael ein cynorthwyo gan y bargyfreithiwr Gwion Lewis CB a'r ymgynghorydd cynllunio Owain Wyn FRTPI. Mae'r Comisiwn yn diolch iddynt am eu cyfraniadau helaeth.

Yn ystod ein trafodaethau, daeth consensws i'r amlwg fod angen camau polisi newydd yn y maes Cynllunio Gwlad a Thref o safbwynt y Gymraeg os ydym am sicrhau cynaliadwyedd ieithyddol ein cymunedau.

Dr Simon Brooks

Cadeirydd

Comisiwn Cymunedau Cymraeg

# 1. Cyflwyniad

## 1.1 Cynllunio ieithyddol a chynllunio gwlad a thref

'Mae'r system gynllunio yn rheoli datblygu a defnydd tir er budd y cyhoedd'. Dyma eiriau agoriadol *Polisi Cynllunio Cymru* (Chwefror 2024), prif ddogfen bolisi genedlaethol Llywodraeth Cymru yn y maes cynllunio gwlad a thref. Mae enghreifftiau lu o dir yng Nghymru yn cael ei ddefnyddio mewn modd sy'n fanteisiol i'r Gymraeg, yn eu plith ysgolion cyfrwng Gymraeg, swyddfeydd Mentrau Iaith, maes yr Eisteddfod Genedlaethol a'r ffermydd teuluol sy'n asgwrn cefn i'r iaith mewn ardaloedd gwledig.

Fodd bynnag, ceir enghreifftiau hefyd o dir Cymru yn cael ei ddefnyddio mewn modd sy'n andwyol i'r Gymraeg a'r cymunedau lle caiff Cymraeg ei siarad. Ail dai yng Nghymru sydd wedi cael y sylw pennaf dros y blynyddoedd diwethaf, ond mae sawl math arall o ddatblygiad yn gallu bod yn andwyol i'r Gymraeg yn y lleoliad anghywir, neu os nad yw'r camau i liniaru effaith datblygiad ar y Gymraeg yn ddigonol. Mae perthynas amlwg rhwng cynllunio gwlad a thref a chynllunio ieithyddol, ond megis dechrau y mae'r gwaith o ddeall y berthynas hon yn well gyda'r bwriad o'i chryfhau.

## 1.2 Egwyddorion craidd

Nid swyddogaeth yr adroddiad hwn yw ceisio esbonio'r gyfundrefn gynllunio yn ei chyfanrwydd. Er hynny, gan fod cynllunio yn faes sy'n llai cyfarwydd i lawer na'r meysydd eraill sydd o fewn cylch gorchwyl y Comisiwn megis addysg a'r gweithle, byddai'n ddefnyddiol egluro rhai egwyddorion craidd cyn bwrw ati i wneud argymhellion.

Wrth wraidd y gyfundrefn gynllunio y mae'r cynllun datblygu. Mae rhaid i bob awdurdod lleol yng Nghymru, a phob awdurdod Parc Cenedlaethol, ddarparu cynllun datblygu lleol. Bydd y cynllun datblygu lleol yn cynnwys cyfres o bolisiau yn datgan pa fath o ddatblygiadau y mae'r awdurdod yn ceisio eu hannog ac ymhle dros gyfnod penodol, a pha fath o ddatblygiadau nad ydyw'n debygol o'u cymeradwyo, un ai'n gyffredinol neu mewn lleoliadau penodol. Mae proses statudol drwyadl i'w dilyn wrth gyflwyno cynllun datblygu lleol. Mae rhaid i'r awdurdod ymgynghori'n helaeth ar gynnwys y cynllun drafft cyn ei gyflwyno'n ffurfiol i Lywodraeth Cymru. Bydd Llywodraeth Cymru wedyn yn penodi arolygydd cynllunio i graffu ar y cynllun drafft mewn gwrandawiadau cyhoeddus cyn gwneud argymhellion ar gynnwys y cynllun. Mae sawl 'prawf cadernid' y mae rhaid i gynllun datblygu lleol ei fodloni cyn y gall arolygydd argymhell y caiff awdurdod fabwysiadu'r cynllun.

Mae pob cynllun datblygu lleol yn sefyll ochr yn ochr â fframwaith datblygu cenedlaethol Llywodraeth Cymru sef *Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040*. Mae *Cymru'r Dyfodol* hefyd yn rhan o gynllun datblygu pob awdurdod cynllunio lleol ac yn cynnwys arweiniad strategol ar lefel genedlaethol ynglŷn â chyfeiriad datblygu yng Nghymru hyd at 2040.

Maes o law, bydd haen arall o gynlluniau rhanbarthol – cynlluniau datblygu strategol – hefyd yn rhan o gynlluniau datblygu yng Nghymru, ond nid ydynt eto wedi eu paratoi.

Mae dyletswydd gyfreithiol ar y sawl sy'n dyfarnu ar gais cynllunio i wneud hynny'n unol â'r cynllun datblygu, oni bai bod 'ystyriaeth berthnasol' yn dynodi fel arall. Un o'r ystyriaethau perthnasol mwyaf nodedig yw'r ddogfen *Polisi Cynllunio Cymru* y dyfynnwyd ohoni eisoes. *Polisi Cynllunio Cymru* sy'n datgan polisiau cynllunio cenedlaethol Llywodraeth Cymru. Yn wahanol i *Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040*, nid yw *Polisi Cynllunio Cymru* yn rhan o'r cynllun datblygu. *Polisi Cynllunio Cymru* sy'n nodi prif egwyddorion y system gynllunio yng Nghymru yn ei chyfanrwydd; mae'n trafod mewn cryn fanylder yr hyn y mae rhaid i gynlluniau datblygu a phenderfyniadau'r system gynllunio ei gyflawni. Gall polisiau yn y ddogfen *Polisi Cynllunio Cymru* fod yn 'ystyriaeth berthnasol' o bwys, yn enwedig os yw'r cynllun datblygu lleol wedi dyddio.

Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi arweiniad pellach ar ofynion *Polisi Cynllunio Cymru* mewn cyfres o Nodiadau Cyngor Technegol yn trafod nifer o feysydd penodol yn y maes cynllunio. Mae cynnwys *Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 20: Cynllunio a'r Gymraeg* yn neilltuoel bwysig i waith y Comisiwn ac fe'i trafodir ymhellach isod. Fel y polisiau yn y ddogfen *Polisi Cynllunio Cymru*, gall y cyngor mewn Nodyn Cyngor Technegol fod yn 'ystyriaeth berthnasol' o bwys wrth benderfynu cais cynllunio.

Dogfen arall sy'n mynnu sylw yn yr adroddiad hwn yw'r *Llawlyfr Cynlluniau Datblygu*, dogfen fanwl a fydd yn gyfarwydd i swyddogion awdurdodau cynllunio sy'n gyfrifol am baratoi a gweithredu cynlluniau datblygu. Mae'r *Llawlyfr Cynlluniau Datblygu* yn cynnwys canllawiau ymarferol ar sut i lunio cynllun datblygu sydd wedi ei seilio ar dystiolaeth gadarn.

### **1.3 Cefndir yr adroddiad hwn**

Fel y nodwyd yn adroddiad cyntaf y Comisiwn a gyhoeddwyd yn Awst 2024, *Grymuso cymunedau, cryfhau'r Gymraeg*, trefnodd y Comisiwn weithdy ar gyfer arbenigwyr cynllunio gwlad a thref a chynllunwyr ieithyddol ym mis Hydref 2023 i drafod y berthynas rhwng y ddau faes. Dymuna'r Comisiwn ddiolch i Owain Wyn FRTPI o gwmni BURUM – cynllunydd siartredig a chanddo brofiad sylweddol yn y gydberthynas rhwng cynllunio defnydd tir a chynllunio ieithyddol – am drefnu a chynnal y gweithdy, am gywain a dadansoddi'r dystiolaeth gefndirol ac am gyflwyno adroddiad cynhwysfawr gydag argymhellion i'r Comisiwn. Adroddiad Owain Wyn, a thrafodaethau'r Comisiwn yn ei sgil, fu'n sail i'r bennod ynghylch cynllunio gwlad a thref a gyhoeddwyd yn *Grymuso cymunedau, cryfhau'r Gymraeg*. Mae'r adroddiad hwn yn adeiladu ar y gwaith hwnnw.

Yn y gweithdy, roedd ymdeimlad cyffredinol ymysg arbenigwyr fod diffyg arweiniad yn y maes cynllunio gwlad a thref o safbwynt y Gymraeg yn rhwystr o ran datblygu mesurau sy'n cefnogi cymunedau Cymraeg. Dangosodd tystiolaeth ysgrifenedig a ddaeth i law'r Comisiwn mewn 'galwad am dystiolaeth' rhwng Tachwedd 2022 ac Ionawr 2023 fod yr ymdeimlad hwn yn gyffredin ymysg cyrff proffesiynol ac awdurdodau cynllunio, yn ogystal ag ymhlith mudiadau iaith ac ymgyrchwyr.

Gofynnodd awdurdodau cynllunio, er enghraifft, am gyfarwyddyd cliriach er mwyn cryfhau polisiâu, gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn sôn am angen 'i gryfhau *Polisi Cynllunio Cymru*, TAN 20 a'r *Llawlyfr Cynlluniau Datblygu* gan ddarparu arweiniad clir ar gyfer holl Awdurdodau Cynllunio Cymru.' Mae'r Comisiwn yn unfarn fod angen ymyraethau dwysach yn y maes cynllunio gwlad a thref na'r hyn a geir ar hyn o bryd, a hynny ar fyrder, er mwyn sicrhau cynaliadwyedd ieithyddol cymunedau Cymraeg. Gall ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch fod yn gerbyd pwrpasol ar gyfer hynny drwy alluogi amrywio polisiâu, ond mae hefyd angen ymyraethau polisi pellach yn y maes cynllunio yng nghyd-destun Cymru gyfan er mwyn gwneud y cynnydd angenrheidiol.

Penderfynodd y Comisiwn ofyn i'r bargyfreithiwr Gwion Lewis CB graffu ar y maes hefyd gan lunio'r adroddiad yn y ddogfen hon. Gofynnwyd iddo ystyried y dystiolaeth a grybwyllwyd uchod, gan ddilyn yn ofalus y camau o ran ffurfio argymhellion polisi cyhoeddus yr oedd y Comisiwn wedi eu dilyn, a'r casgliadau yr oedd y Comisiwn wedi dod iddynt. Gofynnwyd iddo hefyd seilio'r adroddiad ar gynnwys y bennod a gyhoeddodd y Comisiwn yn *Grymuso cymunedau, cryfhau'r Gymraeg a'r argymhelliad a geir yno* (argymhelliad 35). Mae'r Comisiwn yn dymuno diolch i Gwion Lewis CB am ei waith. Mae cynnwys yr adroddiad hwn wedi cael ei drafod yn ofalus gyda Chadeirydd y Comisiwn, ac wedi cael sêl bendith yr aelodau hynny a fu'n gwasanaethu ar y Comisiwn hyd Awst 2024 ac a fu'n gyfrifol am *Grymuso cymunedau, cryfhau'r Gymraeg*. Mae hefyd wedi cael cymeradwyaeth yr aelodaeth newydd a benodwyd yn Awst 2024 er mwyn ystyried polisi iaith mewn rhannau eraill o Gymru.

## 2. Ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch

### 2.1 Ardaloedd o sensitifrwydd/arwyddocâd ieithyddol yn y gyfundrefn gynllunio

Mae *Nodyn Cyngor Technegol 20: Cynllunio a'r Gymraeg* eisoes yn cydnabod bod gan awdurdod cynllunio lleol y gallu i 'ddiffinio yn ei [gynllun datblygu lleol] yr ardaloedd yn ardal ei gynllun lle ystyrir bo'r Gymraeg yn arbennig o sensitif neu arwyddocaol' (para. 2.7.1). Serch hynny, '[n]id oes gofyn i'r [awdurdod cynllunio lleol] ddiffinio ardaloedd' o'r fath (para. 2.7.3). Os yw awdurdod cynllunio yn dymuno diffinio ardaloedd o'r fath, 'rhaid cefnogi eu pwrpas a'u ffiniau gyda thystiolaeth' wrth baratoi'r cynllun datblygu lleol (para. 2.7.1). Yn ôl para. 2.7.2:

Trwy ddiffinio ardaloedd o'r fath, bydd yr [awdurdod cynllunio lleol] yn gallu dangos yn glir i gymunedau a datblygwyr lle gall defnydd o'r Gymraeg fod yn ystyriaeth. Byddai hefyd yn dangos yr ardaloedd lle gallai'r [awdurdod cynllunio lleol] ofyn am fesurau i liniaru effeithiau datblygiad ar y Gymraeg. [...]

Daeth yn amlwg i'r Comisiwn nad yw awdurdodau cynllunio lleol yn defnyddio'r cysyniad o ardaloedd o 'sensitifrwydd ieithyddol' mewn modd cyson ar hyn o bryd. Codwyd yr anghysondeb hwn yn aml mewn tystiolaeth a ddaeth i law'r Comisiwn. Ceir anghysondeb hyd yn oed yn yr enw a ddefnyddir ar gyfer ardaloedd o'r fath, gyda rhai awdurdodau yn cyfeirio at ardaloedd o 'sensitifrwydd' ieithyddol ac eraill yn cyfeirio at 'arwyddocâd' ieithyddol. Mae'r anfodlonrwydd gyda'r ddarpariaeth bresennol ar gyfer ardaloedd o sensitifrwydd/arwyddocâd ieithyddol hefyd yn amlwg mewn llenyddiaeth polisi cyhoeddus. Er enghraifft, nododd Comisiynydd y Gymraeg yn ei arolwg o bolisiâu cynllunio awdurdodau cynllunio yn 2019 fod 'galw o du'r awdurdodau [cynllunio] am ganllawiau clir, cenedlaethol ar asesu effaith ar iaith a diffinio ardaloedd o sensitifrwydd ieithyddol' (Comisiynydd y Gymraeg, 2019).

Mae'r Comisiwn yn ystyried y byddai dynodiad statudol o ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch yn cyfrannu'n sylweddol at gynnig yr eglurder sydd ei angen. Mae'r camau rydym yn eu hargymell er mwyn gwneud hyn yn cael eu trafod yn adran 3 o'n hadroddiad cyntaf, *Grymuso cymunedau, cryfhau'r Gymraeg* ('Ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch'). A bwrw bod y camau hyn yn cael eu cymryd i ddynodi ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch yn statudol, pa bolisiâu cynllunio sydd eu hangen yn yr ardaloedd hyn er mwyn gwarchod buddiannau cymunedau Cymraeg?

### 2.2 Gwersi o'r maes polisi amgylcheddol

Mae'r Comisiwn yn gryf o'r farn fod angen fframwaith polisi clir sy'n egluro goblygiadau'r dynodiad o ardal o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch ar gyfer penderfyniadau cynllunio. Ar hyn o bryd, er bod *Nodyn Cyngor Technegol 20: Cynllunio a'r Gymraeg* yn gosod sail bolisi ar gyfer dynodi ardaloedd o sensitifrwydd ieithyddol mewn cynlluniau datblygu, nid yw'n cynnig arweiniad o sylwedd ar sut y



dylai'r dynodiad effeithio ar y penderfyniadau a wneir ar geisiadau cynllunio unigol yn yr ardaloedd hyn. Mae para. 2.7.2 o'r nodyn yn awgrymu y 'gall defnydd o'r Gymraeg fod yn ystyriaeth' wrth benderfynu ceisiadau cynllunio ar gyfer tir yn yr ardaloedd hyn, ond ni cheir rhagor o arweiniad ynglŷn â pha bryd y bydd hynny. Mae'r un paragraff yn awgrymu y 'gallai'r' awdurdod cynllunio 'ofyn am fesurau i liniaru effeithiau datblygiad ar y Gymraeg' yn yr ardaloedd hyn, ond ni cheir arweiniad pellach ynglŷn â phryd i ofyn am y mesurau hynny na pha fath o fesurau y gallent fod.

Yn fwyaf problemus oll ym marn y Comisiwn, ni osodir unrhyw safon yn *Nodyn Cyngor Technegol 20*, nac yn unman arall, ar gyfer yr hyn y dylai mesurau lliniaru ei gyflawni yn y maes cynllunio o safbwynt y Gymraeg. Gellir cyferbynnu hyn â'r hyn sy'n ofynnol i liniaru niwed ecolegol mewn 'Ardal Cadwraeth Arbennig' ('ACA') a warchodir gan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 ('Rheoliadau Cynefinoedd 2017'). O dan y Rheoliadau hyn, os yw cais cynllunio yn debygol o gael effaith arwyddocaol ar ACA, mae angen i'r datblygwr ddangos na fyddai effaith andwyol ar 'integredd' (*integrity*) yr ACA wedi i unrhyw fesurau lliniaru gael eu cymryd. Ym marn y Comisiwn, gellir dysgu o'r Rheoliadau hyn yn ymwneud ag ardaloedd o arwyddocâd ecolegol wrth ystyried polisiau cynllunio newydd ar gyfer ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch.

Yn benodol, mae'r Comisiwn yn nodi'r ddarpariaeth a wneir yn rheoliadau 63 a 64 o Reoliadau Cynefinoedd 2017 ar gyfer cais cynllunio sy'n debygol o effeithio ar ACA. Yn fras, yn y rheoliadau hyn:

- Os nad yw 'prosiect' (sy'n cynnwys cais cynllunio) wedi ei gysylltu'n uniongyrchol â rheoli cadwraeth yn yr ACA neu'n angenrheidiol ar gyfer hynny, mae rhaid ystyried a ydyw'n 'debygol o gael effaith arwyddocaol' ar yr ACA. Gelwir hyn yn broses 'sgrinio'.
- Pan na ellir eithrio'r posibilrwydd o effaith arwyddocaol debygol ar yr ACA, rhaid i'r sawl sy'n penderfynu'r cais cynllunio sicrhau fod ganddo 'asesiad priodol' o oblygiadau caniatáu'r cais o ystyried amcanion cadwraeth yr ACA.
- Ni chaiff y sawl sy'n penderfynu'r cais cynllunio gymeradwyo'r cais heb sicrhau'n gyntaf na fyddai'n cael effaith andwyol ar 'integredd' yr ACA (sydd fel arfer yn golygu sicrhau mesurau lliniaru effeithiol).
- Os na ellir sicrhau na fyddai'r cais cynllunio yn cael effaith andwyol ar integredd yr ACA, ac os nad oes 'datrysiadau amgen' a fyddai'n llai niweidiol i'r ACA, ni chaiff y cais ei gymeradwyo oni bai bod 'rhesymau hanfodol er budd cyhoeddus tra phwysig' ('imperative reasons of overriding public interest') dros ganiatáu'r cais ac y gellir sicrhau'r mesurau digolledu angenrheidiol ('necessary compensatory measures').

Ym marn y Comisiwn, nid oes rheswm, mewn egwyddor, dros graffu'n fwy trwyadl ar effeithiau cais cynllunio ar ardal o arwyddocâd ecolegol yng Nghymru na'i effeithiau ar ardal o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch. Nid oes ychwaith reswm, mewn egwyddor, dros liniaru effeithiau andwyol cais cynllunio ar ardal o arwyddocâd ecolegol yn fwy cyflawn na'i effeithiau andwyol ar ardal o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch. Ymhlith y saith 'nod llesiant' a ddiffinnir yn adran 4 o Ddeddf Llesiant

Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 y mae'n ofynnol i bob corff cyhoeddus yng Nghymru eu dilyn, mae gan y nodau ecolegol ac ieithyddol statws cyfartal:

Nod	Disgrifiad o'r nod
Cymru gydnherth.	Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnherthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd).
Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.	Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden.

Cred y Comisiwn y dylid darparu fframwaith clir ar gyfer asesu effeithiau cais cynllunio ar ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch yn yr un modd ag a wneir ar gyfer asesu effeithiau ecolegol cais ar ACA. Mae'r dystiolaeth a ddaeth i law'r Comisiwn yn dangos fod dulliau awdurdodau cynllunio o asesu effeithiau ceisiadau cynllunio ar y Gymraeg yn hynod anghyson gyda rhai awdurdodau yn fwy trwyadl na'i gilydd (ac weithiau yr un awdurdod yn anghyson o'r naill achos i'r llall). Mae'r Comisiwn yn bryderus y caniateir i hyn ddigwydd gan nad oes unrhyw gyfraith na pholisi yn gosod gofynion clir ar gyfer asesiadau o'r fath. Gellir gwrthgyferbynnu hyn â'r fframwaith a ddefnyddir i asesu effeithiau ecolegol yn Rheoliadau Cynefinoedd 2017, sefyllfa na ellir ei hamddiffyn ym marn y Comisiwn o ystyried bod gan nodau ecolegol ac ieithyddol statws cyfartal o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Yn ddelfrydol, byddai'r fframwaith newydd ar gyfer asesu effeithiau cais cynllunio ar ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch yn cael ei sicrhau mewn deddfwriaeth, yn yr un modd ag a wneir yn y maes polisi ecolegol. Os nad yw hyn yn ddichonadwy, mae'r Comisiwn yn argymhell y dylid diwygio *Polisi Cynllunio Cymru* i gynnwys y fframwaith.

Ystyriodd y Comisiwn a fyddai'n ddigonol diwygio *Nodyn Cyngor Technegol 20* i gynnwys y fframwaith, ond roedd y Comisiwn yn unfarn y dylid cynnwys y newid polisi hwn o bwys yn *Polisi Cynllunio Cymru* gan mai diben y Nodiadau Cyngor Technegol yw cynnig arweiniad pellach ar bolisïau *Polisi Cynllunio Cymru*, nid cyflwyno bolisïau newydd. Fodd bynnag, *Nodyn Cyngor Technegol 20* fyddai'r cartref priodol ar gyfer arweiniad polisi pellach ar sut i ddarparu asesiad cynhwysfawr o effeithiau cais cynllunio ar ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch, a'r mathau o gamau a all liniaru effeithiau andwyol yn effeithiol.

**Argymhelliad 1: Dylid darparu fframwaith clir ar gyfer asesu effeithiau cais cynllunio ar ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch yn yr un modd ag a wneir ar gyfer asesu effeithiau cais cynllunio ar Ardaloedd Cadwraeth Arbennig. Yn ddelfrydol, dylid gwneud hyn mewn deddfwriaeth. Os nad yw hyn**

yn ddichonadwy, dylid diwygio *Polisi Cynllunio Cymru* i gynnwys y fframwaith newydd.

**Argymhelliad 2:** Dylid diwygio *Nodyn Cyngor Technegol 20* i roi arweiniad manwl ar sut i ddarparu asesiad cynhwysfawr o effeithiau cais cynllunio ar ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch, a'r mathau o gamau a all liniaru effeithiau andwyol yn effeithiol.

### **3. Ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch**

Fel y nododd y Comisiwn yn ei adroddiad cyntaf, *Grymuso cymunedau, cryfhau'r Gymraeg*, mae'r Gymraeg yn iaith gymunedol rwydweithiol ymhob rhan o Gymru. Term technegol yw 'dwysedd uwch' ar gyfer diffinio ardaloedd lle y ceir dwysedd uchel o siaradwyr fel canran o'r boblogaeth yn lleol. Nid yw hyn yn golygu nad yw ardaloedd eraill o Gymru yn arwyddocaol o safbwynt y Gymraeg a chymunedau Cymraeg. Nid yw ychwaith yn golygu nad yw'n bosibl i gais gynllunio gael effeithiau andwyol arwyddocaol ar y Gymraeg y tu allan i ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch.

Cred y Comisiwn yw y dylai datblygwr ddarparu asesiad annibynnol o effeithiau cais cynllunio ar y Gymraeg os yw'r awdurdod cynllunio o'r farn wedi proses sgrinio ei bod yn debygol y bydd y cais yn cael effaith arwyddocaol ar y Gymraeg y tu allan i ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch. Dylid darparu ar gyfer hyn yn ddelfrydol mewn deddfwriaeth neu yn niffyg hynny drwy ddiwygio *Polisi Cynllunio Cymru*.

Dylai'r deddfwriaeth neu'r polisi diwygiedig ddatgan fod angen rhoi 'sylw arbennig' i bwysigrwydd ffyniant y Gymraeg wrth ystyried yr asesiad o effeithiau'r cais cynllunio ar y Gymraeg fel rhan o benderfynu'r cais. Mae cynsail deddfwriaethol ar gyfer gofyn i awdurdodau cynllunio lleol roi 'sylw arbennig' i fater wrth asesu cais cynllunio, sef yng nghyd-destun adeiladau rhestredig. Mae adran 66(1) o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 yn gosod dyletswydd ar y rhai sy'n penderfynu ceisiadau cynllunio i roi 'sylw arbennig i ddymunoldeb diogelu'r adeilad, ei safle neu unrhyw nodweddion o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig sydd ganddo.'

Mae'r Comisiwn yn argymhell y dylid darparu fel a ganlyn mewn deddfwriaeth, neu yn *Polisi Cynllunio Cymru*, ar gyfer ceisiadau cynllunio a allai gael effaith arwyddocaol ar y Gymraeg y tu allan i ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch:

Wrth ystyried pa un ai i roi caniatâd cynllunio i ddatblygiad sy'n debygol o gael effaith arwyddocaol ar y Gymraeg y tu allan i ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch, rhaid i'r awdurdod cynllunio lleol neu, yn ôl y digwydd, Weinidogion Cymru roi sylw arbennig i bwysigrwydd ffyniant y Gymraeg.

Yn y cyd-destun hwn, pwysleisia'r Comisiwn y gall effeithiau arwyddocaol ar y Gymraeg gwmpasu effeithiau cadarnhaol yn ogystal ag effeithiau andwyol. O ganlyniad, ni fyddai dyletswydd i roi sylw arbennig i bwysigrwydd ffyniant y Gymraeg o reidrwydd yn milwrio yn erbyn cymeradwyo cais cynllunio pe bai'r awdurdod cynllunio lleol o'r farn y gallai'r datblygiad arfaethedig gryfhau'r Gymraeg y tu allan i ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch. Ym marn y Comisiwn, byddai'r ddarpariaeth a argymhellir yn debygol o gryfhau'r berthynas rhwng cynllunio defnydd tir a chynllunio ieithyddol drwy annog datblygiadau cynaliadwy sy'n fanteisiol i'r Gymraeg, yn ogystal â'i gwneud yn fwy anodd i awdurdod gymeradwyo datblygiadau sy'n andwyol i'r iaith.

**Argymhelliad 3:** Dylai deddfwriaeth neu *Polisi Cynllunio Cymru* ddatgan fod angen i ddatblygwr ddarparu asesiad annibynnol o effeithiau ei gais cynllunio ar y Gymraeg os yw'r awdurdod cynllunio o'r farn wedi proses sgrinio ei bod yn debygol y bydd y cais yn cael effaith arwyddocaol ar y Gymraeg y tu allan i ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch.

**Argymhelliad 4:** Dylai deddfwriaeth neu *Polisi Cynllunio Cymru* ddatgan fod angen i'r sawl sy'n penderfynu cais cynllunio roi sylw arbennig i bwysigrwydd ffyniant y Gymraeg wrth ystyried a ddylid rhoi caniatâd cynllunio i ddatblygiad sy'n debygol o gael effaith arwyddocaol ar y Gymraeg y tu allan i ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch.

**Argymhelliad 5:** Dylid diwygio *Nodyn Cyngor Technegol 20* er mwyn cynnig arweiniad manwl ar yr hyn sy'n ofynnol er mwyn rhoi 'sylw arbennig' i bwysigrwydd ffyniant y Gymraeg y tu allan i ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch yn yr amgylchiadau a ddisgrifir yn Argymhelliad 4.

## 4. Newidiadau eraill i *Polisi Cynllunio Cymru*

Yn ogystal ag ystyried sut y gellid cryfhau polisiau cynllunio cenedlaethol i warchod yn erbyn datblygiadau sy'n andwyol i'r Gymraeg, ystyriodd y Comisiwn hefyd i ba raddau y mae'r polisiau hyn yn gosod sylfaen glir a chadarn ar gyfer cynllunio'n bositif o blaid y Gymraeg a'r cymunedau lle y caiff ei siarad.

Fel y nodwyd uchod, ceir datganiad cynhwysfawr yn y ddogfen *Polisi Cynllunio Cymru* o bolisiau cenedlaethol Llywodraeth Cymru ym maes cynllunio gwlad a thref. Ei brif amcan yw sicrhau bod y drefn gynllunio yng Nghymru yn cyfrannu at ddatblygiad cynaliadwy gan wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol yn unol ag amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. I'r perwyl hwn, mae Llywodraeth Cymru yn ffafrio'r dull 'Creu Lleuedd' a ddisgrifir fel 'ffordd holistig o fynd ati i gynllunio a dylunio datblygiadau a lleuedd' (tud. 14). Nodir y dylai pum Egwyddor Cynllunio Allweddol lywio pob cynllun datblygu yng Nghymru, gan gynnwys *Cymru'r Dyfodol* (para. 2.13), sef:

- Helpu'r economi i dyfu mewn ffordd gynaliadwy
- Gwneud y gorau o adnoddau
- Hwyluso amgylcheddau hygyrch ac iach
- Creu a chynnal cymunedau
- Amddiffyn yr amgylchedd a chyfyngu ar yr effeithiau ar yr amgylchedd

Mae Ffigur 5 yn *Polisi Cynllunio Cymru* yn nodi 37 'canlyniad' y dylid gweithio tuag atynt o fewn fframwaith y pum egwyddor hyn. Un o'r canlyniadau a ddeisyfir o dan 'Creu a Chynnal Cymunedau' yw 'Galluogi'r Gymraeg i ffynnu'. Mae'n ddiddorol nodi y defnyddir ieithwedd ragweithiol wrth drafod y Gymraeg ('galluogi' a 'ffynnu'). Gellir gwrthgyferbynnu hynny â'r ieithwedd fwy ymatebol a ddefnyddir wrth gyfeirio at yr amgylchedd a newid hinsawdd ('lleihau risgiau amgylcheddol' a 'gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd').

Serch hynny, yn yr ymateb i alwad y Comisiwn am dystiolaeth, nododd RTPI Cymru ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri fod angen i *Polisi Cynllunio Cymru* roi arweiniad cliriach a mwy cynhwysfawr ar y berthynas rhwng 'Creu Lleuedd' a'r Gymraeg. Mae'r Comisiwn yn cytuno. Pum paragraff byr o arweiniad polisi a geir yn *Polisi Cynllunio Cymru* ar y testun 'Y Gymraeg a Chreu Lleuedd' (paragraffau 3.25-3.29). Cymharer hyn â'r adrannau ar dreftadaeth a'r amgylchedd yn y ddogfen, lle y ceir arweiniad llawer mwy manwl. Hyd a lled yr arweiniad polisi presennol ar 'Y Gymraeg a Chreu Lleuedd' yn *Polisi Cynllunio Cymru* yw'r canlynol:

- Nodir fod y Gymraeg yn 'rhan o'r ffabrig cymdeithasol a diwylliannol' yng Nghymru a bod angen i'r system cynllunio defnydd tir 'ystyried yr amodau sy'n hanfodol i'r Gymraeg a, thrwy wneud hynny, gyfrannu at ei defnyddio a'r nod llesiant y Gymraeg sy'n Ffynnu.' (para. 3.25)
- Rhaid i awdurdodau cynllunio 'ystyried effeithiau tebygol eu cynlluniau datblygu ar y defnydd o'r Gymraeg' (para. 3.26) a chynnwys 'datganiad' ar sut y maent 'wedi ystyried anghenion a buddiannau'r Gymraeg wrth baratoi'r cynllun'. (para. 3.27)

- Nodir y '[g]all ystyriaethau yn ymwneud â'r defnydd o'r Gymraeg gael sylw gan benderfynwyr [ceisiadau cynllunio] cyn belled â'u bod yn berthnasol' i'r ceisiadau hynny. (para. 3.28)
- 'Os bydd angen, gellir cynnal asesiadau o'r effaith ar yr iaith mewn perthynas â datblygiadau mawr na ddyrannwyd mewn cynllun datblygu sy'n cael eu cynnig mewn ardaloedd o sensitifrwydd neu bwysigrwydd arbennig i'r iaith.' (para. 3.29)

Cred y Comisiwn fod angen arweiniad polisi llawer mwy clir a manwl na hyn ar y testun 'Y Gymraeg a Chreu Lleoedd' er mwyn sicrhau cynaliadwyedd ieithyddol cymunedau Cymraeg.

Mae'r Comisiwn eisoes wedi argymhell y dylid cryfhau *Polisi Cynllunio Cymru* drwy (i) osod fframwaith newydd ar gyfer asesu effeithiau ceisiadau cynllunio ar ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch; a (ii) datgan y dylid rhoi sylw arbennig i bwysigrwydd ffyniant y Gymraeg wrth benderfynu a ddylid cymeradwyo cais a allai effeithio'n arwyddocaol ar y Gymraeg y tu allan i ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch. Cred y Comisiwn y gellid cryfhau *Polisi Cynllunio Cymru* ymhellach o safbwynt y Gymraeg drwy:

- gynnwys ffyniant y Gymraeg fel un o'r Egwyddorion Cynllunio Allweddol ar ddechrau'r ddogfen a rhoi arweiniad penodol a manwl ar sut y gellir defnyddio'r gyfundrefn gynllunio gwlad a thref i alluogi'r Gymraeg i ffynnu;
- esbonio sut y dylai'r system gynllunio gwlad a thref weithredu'r egwyddorion cynllunio ieithyddol yn strategaeth *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr*;
- disgrifio pwrpas ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch a rhoi arweiniad i awdurdodau cynllunio ar sut i roi sylw dyladwy iddynt wrth baratoi cynlluniau datblygu.

**Argymhelliad 6: Dylid cryfhau *Polisi Cynllunio Cymru* o safbwynt y Gymraeg drwy gynnwys arweiniad mwy clir a manwl ar y testun 'Y Gymraeg a Chreu Lleoedd'. Ymhlith y newidiadau a argymhellir gan y Comisiwn, dylid cynnwys ffyniant y Gymraeg fel un o'r Egwyddorion Cynllunio Allweddol ac esbonio sut y dylai'r system gynllunio gwlad a thref weithredu'r egwyddorion cynllunio ieithyddol yn strategaeth *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr*.**

Yn ogystal, mae'r Comisiwn yn gryf o'r farn na ddylid cyfyngu'r angen i gynnal asesiad o effaith cais cynllunio ar y Gymraeg, fel y gwna *Polisi Cynllunio Cymru* ar hyn o bryd, i 'ddatblygiadau mawr na ddyrannwyd mewn cynllun datblygu' (para. 3.29). Wrth argymhell fframwaith newydd ar gyfer darparu asesiad o effeithiau arwyddocaol cais cynllunio ar ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch (gweler Argymhelliad 1 uchod), dymuna'r Comisiwn wneud yn glir ei fod yn argymhell defnyddio'r fframwaith hwn ar gyfer  pob cais cynllunio sy'n debygol o gael effaith arwyddocaol ar ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch, ac nid dim ond 'datblygiadau mawr na ddyrannwyd mewn cynllun datblygu'. Y rhesymeg wrth wraidd cyfyngu'r angen am asesiad effaith i ddatblygiadau o'r fath yw'r gred y byddai gofyn am asesiad effaith o gais a gefnogir yn fras gan y cynllun datblygu yn 'dyblygu gwaith' y mae'r awdurdod cynllunio eisoes wedi ei wneud wrth asesu effeithiau'r

cynllun datblygu lleol ar y Gymraeg (gweler para. 3.1.3, *Nodyn Cyngor Technegol 20*). Yn ôl y rhesymeg hon, ar gyfer 'hap-safleoedd' yn unig – hynny yw, safleoedd nad ydynt eisoes wedi eu neilltuo ar gyfer eu datblygu yn y cynllun datblygu – y dylid asesu effeithiau tebygol cais cynllunio ar y Gymraeg.

Nid yw'r Comisiwn wedi ei argyhoeddi fod yr asesiad effaith ieithyddol lefel-uchel a wneir ar gyfer y cynllun datblygu lleol yn ddigonol i ddiwallu'r angen am asesiad effaith ieithyddol o gais cynllunio unigol. Pan baratwir yr asesiad effaith ieithyddol lefel-uchel ar gyfer y cynllun datblygu lleol, mae'n amhosibl gwybod, er enghraifft, yn union pa fath a chymysgedd o dai a fydd yn cael eu cynnig maes o law mewn ceisiadau cynllunio ar gyfer y safleoedd sydd wedi eu neilltuo ar gyfer tai yn y cynllun. Mae hefyd yn amhosibl darogan pa ganran o'r tai mewn cais cynllunio maes o law a fydd yn dai fforddiadwy. Mae polisiâu cynllunio cenedlaethol a lleol yn caniatáu canran is o dai fforddiadwy mewn cais cynllunio na'r hyn sy'n darged yn y cynllun datblygu os yw'r amodau economaidd pan wneir y cais yn golygu nad yw cyrraedd y targed yn ddichonadwy. Mae'r pethau hyn yn ddibynnol ar gyflwr y farchnad pan wneir y cais – marchnad a fydd yn hynod gyfnewidiol dros gyfnod cynllun a fydd yn para, fel arfer, am o leiaf deng mlynedd.

Oherwydd natur anwadal y farchnad a'r ffaith nad yw'r amgylchedd yn sefyll yn llonydd, mae'r gyfraith yn gorfodi awdurdodau cynllunio i ystyried effeithiau amgylcheddol tai newydd ddwywaith: yn gyntaf wrth baratw'r cynllun datblygu lleol ac unwaith yn rhagor wrth ystyried ceisiadau unigol maes o law. Nid oes cyfiawnhad dros drin y Gymraeg yn wahanol.

**Argymhelliad 7: Dylai'r fframwaith newydd ar gyfer darparu asesiad o effeithiau arwyddocaol cais cynllunio ar ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch gael ei ddefnyddio ar gyfer  pob cais cynllunio sy'n debygol o gael effeithiau arwyddocaol o'r fath. Ni ddylid cyfyngu'r fframwaith newydd i geisiadau cynllunio am ddatblygiadau mawr na ddyrannwyd mewn cynllun datblygu.**

Parthed ceisiadau cynllunio a allai gael effaith ar y Gymraeg y tu allan i ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch, argymhellodd y Comisiwn uchod y dylid darparu mewn deddfwriaeth neu yn *Polisi Cynllunio Cymru* ar gyfer gofyn am asesiad o effeithiau'r cais ar y Gymraeg os yw'r awdurdod cynllunio o'r farn wedi proses sgrinio ei bod yn debygol y bydd y cais yn cael effaith arwyddocaol ar y Gymraeg. Dymuna'r Comisiwn bwysleisio eto na ddylid, am y rhesymau a esboniwyd uchod, gyfyngu'r angen am asesiad o'r fath i geisiadau ar gyfer hap-safleoedd nad ydynt wedi eu neilltuo ar gyfer eu datblygu yn y cynllun datblygu.

**Argymhelliad 8: Os yw'r awdurdod cynllunio o'r farn wedi proses sgrinio ei bod yn debygol y bydd cais cynllunio yn cael effeithiau arwyddocaol ar y Gymraeg y tu allan i ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch, dylai'r datblygwr baratoi asesiad o'r effeithiau hynny. Ni ddylai *Polisi Cynllunio Cymru* ddatgan fod yr angen am asesiad wedi ei gyfyngu i geisiadau ar gyfer hap-safleoedd.**



## **5. Newidiadau eraill i *Nodyn Cyngor Technegol 20***

Mae'r Comisiwn eisoes wedi argymhell uchod newidiadau o bwys i *Nodyn Cyngor Technegol 20* yng nghyd-destun y fframwaith newydd a awgrymir ar gyfer asesu effeithiau ceisiadau cynllunio ar ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch. Fodd bynnag, daeth yn amlwg i'r Comisiwn yn ystod ei waith fod angen adolygiad cynhwysfawr o *Nodyn Cyngor Technegol 20* sy'n ymestyn ymhellach na'r newidiadau hyn.

Yn benodol, cred y Comisiwn y dylai Llywodraeth Cymru adolygu a diwygio *Nodyn Cyngor Technegol 20* er mwyn rhoi cyngor ac arweiniad mwy eglur ar sut i baratoi asesiadau effaith ar y Gymraeg ar gyfer mathau gwahanol o ddatblygiadau. Ym marn y Comisiwn, mae angen arweiniad ar yr ystyriaethau penodol sy'n codi wrth asesu datblygiadau tai, cyflogaeth, manwerthu, masnachol, twristiaeth, trafnidiaeth ac ynni. Dylai'r cyngor hwn hefyd roi arweiniad penodol ar gamau lliniaru a gwella priodol ar gyfer mathau gwahanol o ddatblygiad, gan dderbyn nad yw'r camau sy'n briodol ar gyfer un math o ddatblygiad o reidrwydd yn mynd i fod yn briodol i liniaru neu wella effeithiau math gwahanol o ddatblygiad ar y Gymraeg.

**Argymhelliad 9: Dylid adolygu a diwygio *Nodyn Cyngor Technegol 20* yn ei gyfanrwydd er mwyn rhoi cyngor ac arweiniad mwy penodol ar sut i baratoi asesiadau effaith ar y Gymraeg ar gyfer mathau gwahanol o ddatblygiadau. Dylai'r cyngor hwn hefyd roi arweiniad penodol ar gamau lliniaru a gwella wedi eu teilwra ar gyfer datblygiadau o fathau gwahanol.**

## 6. Adolygiad ehangach o Nodiadau Cyngor Technegol eraill

Yn yr adroddiad hwn, mae'r Comisiwn yn argymhell newidiadau pellgyrhaeddol ond angenrheidiol i *Polisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor Technegol 20* er mwyn sicrhau cynaliadwyedd cymunedau Cymraeg. Byddai gan y newidiadau hyn, yn enwedig y ddarpariaeth a argymhellir ar gyfer ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch, oblygiadau ar gyfer rhai Nodiadau Cyngor Technegol eraill. Er enghraifft, byddai *Nodyn Cyngor Technegol 4: Datblygiadau manwerthu a masnachol* yn anghyflawn ac o bosibl yn gamarweiniol pe na bai'n cyfeirio at y fframwaith newydd ar gyfer asesu ceisiadau cynllunio (gan gynnwys ceisiadau ar gyfer datblygiadau manwerthu a masnachol) yn yr ardaloedd hyn.

Cred y Comisiwn y byddai angen adolygu'r Nodiadau Cyngor Technegol canlynol i sicrhau fod ystyriaeth briodol yn cael ei rhoi ynndynt i'r fframwaith polisi newydd ar gyfer ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch:

- *Nodyn Cyngor Technegol 3: Parthau cynllunio syml*
- *Nodyn Cyngor Technegol 4: Datblygiadau manwerthu a masnachol*
- *Nodyn Cyngor Technegol 6: Cynllunio ar gyfer cymunedau gwledig cynaliadwy*
- *Nodyn Cyngor Technegol 13: Twristiaeth*
- *Nodyn Cyngor Technegol 18: Trafnidiaeth*
- *Nodyn Cyngor Technegol 23: Datblygu economaidd*
- *Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr amgylchedd hanesyddol*

Mae'r Comisiwn yn nodi fod rhai o'r Nodiadau Cyngor Technegol hyn wedi dyddio'n sylweddol ac nad oes gweithdrefn amlwg ar gyfer eu diweddarau. Nid yw'r Comisiwn o'r farn fod angen diweddarau'r Nodiadau Cyngor Technegol uchod i gyd ar yr un pryd ag y gwneir y newidiadau angenrheidiol a argymhellir i *Polisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor Technegol 20*. Dylid diwygio *Polisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor Technegol 20* fel mater o flaenoriaeth a diweddarau'r Nodiadau Cyngor Technegol uchod cyn gynted ag y bo modd wedi hynny.

**Argymhelliad 10: Dylai Llywodraeth Cymru adolygu Nodiadau Cyngor Technegol 3, 4, 6, 13, 18, 23 a 24 i sicrhau fod ystyriaeth briodol yn cael ei rhoi ynndynt i'r fframwaith polisi newydd ar gyfer ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch.**

## 7. Adolygu Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040

Fel yr esboniwyd uchod, *Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040* yw fframwaith datblygu cenedlaethol Llywodraeth Cymru sy'n gosod cyfeiriad strategol ar gyfer y defnydd a wneir o dir Cymru dros yr ugain mlynedd nesaf. Mae'n gosod strategaeth ar gyfer mynd i'r afael â:

blaenoriaethau cenedlaethol allweddol drwy'r system gynllunio, gan gynnwys cynnal a datblygu economi sy'n ffynnu, datgarboneiddio a sicrhau hinsawdd gadarn, datblygu ecosystemau cryf a gwella iechyd a llesiant ein cymunedau. (tud. 6)

Mae'r Comisiwn yn gryf o'r farn nad yw fersiwn gyfredol *Cymru'r Dyfodol* yn gwneud digon i gydnabod bod sefyllfa'r Gymraeg yn amrywio ar draws Cymru a bod angen ystyried opsiynau amgen o ran cymell twf y Gymraeg mewn gwahanol ardaloedd yng nghyd-destun amcanion strategaeth *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr*. Mae'r Comisiwn yn nodi y cafodd cynaliadwyedd y Gymraeg ei asesu ar lefel Cymru gyfan yn yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig a baratowyd ar gyfer *Cymru'r Dyfodol*. Nodir hefyd nad yw'r ddogfen *Cymru'r Dyfodol: Monitro ac adolygu* (Llywodraeth Cymru, 2021) yn rhoi ystyriaeth i ddsbarthiad gofodol siaradwyr y Gymraeg o ran ble maent yn byw ac yn gweithio yng Nghymru.

Cred y Comisiwn fod angen adolygu *Cymru'r Dyfodol* a'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig a baratowyd ar ei gyfer er mwyn rhoi ystyriaeth lawnach i ddsbarthiad gofodol siaradwyr y Gymraeg a goblygiadau hynny ar gyfer y fframwaith datblygu cenedlaethol. Ni fyddai hynny'n anghyson â chyd-destun cenedlaethol *Cymru'r Dyfodol* gan fod y ddogfen eisoes yn darparu polisiau penodol ar gyfer pedwar rhanbarth yng Nghymru (Gogledd, Canolbarth, De-Orllewin, De-Ddwyrain) (gweler Polisiau 20-36). Yn hyn o beth, mae'n destun pryder i'r Comisiwn na cheir unrhyw gyfeiriad at y Gymraeg na chymunedau Cymraeg ym Mholisi 19 *Cymru'r Dyfodol*, sef y polisi sy'n gosod fframwaith ar gyfer cynnwys cynlluniau datblygu strategol ar gyfer y rhanbarthau hyn. Oherwydd hyn, ni cheir unrhyw arweiniad o dan y polisi ar gyfer cyd-bwyllgorau corfforedig wrth iddynt ddarparu cynlluniau datblygu strategol o ran y polisiau a fyddai'n cyfrannu at ffyniant cymunedau Cymraeg.

Byddai dynodi ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch yn statudol yn sbardun pellach ar gyfer sicrhau fod *Cymru'r Dyfodol* yn rhoi sylw dyladwy i'r Gymraeg a chymunedau Cymraeg.

**Argymhelliad 11: Dylid adolygu *Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040* yng ngoleuni dynodiad statudol newydd o ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch er mwyn rhoi ystyriaeth lawnach i ddsbarthiad gofodol siaradwyr y Gymraeg a goblygiadau hynny ar gyfer y fframwaith datblygu cenedlaethol.**

**Argymhelliad 12: Dylid ychwanegu cyfeiriad at y Gymraeg a chymunedau Cymraeg ym Mholisi 19 *Cymru'r Dyfodol*, a chynnwys arweiniad ar gyfer cyd-bwyllgorau corfforedig wrth iddynt ddarparu cynlluniau datblygu strategol o ran y polisiau a fyddai'n cyfrannu at ffyniant cymunedau Cymraeg.**

## 8. Adolygu'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu

Mae'r *Llawlyfr Cynlluniau Datblygu* yn rhoi arweiniad i swyddogion awdurdodau cynllunio sy'n gyfrifol am baratoi a gweithredu cynlluniau datblygu. Fe'i diweddarwyd ddiwethaf yn 2020, yn bennaf er mwyn ychwanegu arweiniad ar gyfer y gwaith o baratoi'r cynlluniau datblygu strategol newydd.

Mae'r Comisiwn o'r farn fod angen i'r llawlyfr roi arweiniad llawer mwy manwl a chynhwysfawr ar yr ystyriaeth a roddir i'r Gymraeg wrth lunio cynlluniau datblygu. Dau baragraff o arweiniad yn unig a geir ar y pwnc hwn ar hyn o bryd, a hynny yn adran 4 o'r llawlyfr (paragraffau 4.13-4.14). Cyfeirir yno at ddyletswydd statudol awdurdod cynllunio i sicrhau fod Arfarniad o Gynaliadwyedd y cynllun datblygu yn cynnwys asesiad o effeithiau tebygol y cynllun ar y defnydd o'r Gymraeg, ond ni cheir arweiniad o sylwedd ar sut i baratoi'r asesiad hwn.

Nid yw'r canllaw ychwaith yn cyfeirio at ddyletswydd statudol awdurdodau cynllunio lleol o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 i gydymffurfio â safonau llunio polisi'r Gymraeg wrth lunio, adolygu neu addasu polisiâu yn y cynllun datblygu lleol (Safonau 88-90, Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015) neu wrth gyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â'r polisiâu hyn (Safonau 90-92, Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015). Ceir trafodaeth gyffredinol fer o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a safonau'r Gymraeg yn adran 7 o'r canllaw (paragraffau 7.13-7.15) ond rhoddir yr argraff yno mai'r safonau cyflenwi gwasanaethau yn unig sy'n berthnasol i'r broses o baratoi cynllun datblygu lleol; nid oes awgrym fod y safonau llunio polisi hefyd yn berthnasol.

Mae'n destun pryder i'r Comisiwn nad yw'r *Llawlyfr Cynlluniau Datblygu* yn cyfeirio o gwbl at safonau llunio polisi'r Gymraeg. Mae hwn yn fwlch sydd angen ei lenwi ar fyrder gan fod safonau llunio polisi'r Gymraeg yn gosod gofynion asesu manwl a phenodol sy'n mynd ymhellach na'r dyletswydd statudol sylfaenol i sicrhau fod Arfarniad o Gynaliadwyedd y cynllun datblygu yn cynnwys asesiad o effeithiau tebygol y cynllun ar y defnydd o'r Gymraeg. Er enghraifft, yn ogystal â gofyn i awdurdod cynllunio ystyried pa effeithiau y byddai polisiâu'r cynllun datblygu yn eu cael ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg (Safon 88), mae'r safonau llunio polisi hefyd yn gofyn i awdurdod cynllunio ystyried sut gellid llunio'r polisiâu fel y byddent yn cael effeithiau positif, neu fwy positif, ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg (Safon 89). Maent hefyd yn gofyn i'r awdurdod ystyried sut y gellid llunio'r polisiâu fel na fyddent yn cael effeithiau andwyol, neu fel eu bod yn cael effeithiau llai andwyol, ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg (Safon 90). Ni fyddai swyddog cynllunio yn ymwybodol o'r gofynion pwysig hyn o ddarllen y llawlyfr cyfredol.

Mae'r Comisiwn yn nodi y rhoddodd Tribiwnlys y Gymraeg ystyriaeth i ofynion y safonau llunio polisi yng nghyd-destun ad-drefnu ysgolion yn ei benderfyniad yn *Cyngor Dinas a Sir Abertawe v Comisiynydd y Gymraeg* (Achos Rhif: TYG/21/01). Mae'r Comisiwn yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg i sicrhau fod y *Llawlyfr Cynlluniau Datblygu* yn cael ei ddiwygio i roi sylw dyladwy i'r safonau llunio polisi a phenderfyniad y Tribiwnlys.

**Argymhelliad 13: Dylai Llywodraeth Cymru adolygu a diwygio cynnwys y *Llawlyfr Cynlluniau Datblygu* i gynnwys arweiniad llawer mwy manwl a chynhwysfawr ar yr ystyriaeth a roddir i'r Gymraeg wrth lunio cynlluniau datblygu. Fel rhan o'r adolygiad hwn, dylai Llywodraeth Cymru ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg i sicrhau fod y llawlyfr diwygiedig yn rhoi sylw dyladwy i safonau llunio polisi'r Gymraeg ac yn rhoi arweiniad manwl ar sut i gydymffurfio â hwy wrth lunio, adolygu neu addasu polisiâu mewn cynlluniau datblygu.**

## 9. Gwella hyfforddiant

Yn olaf, mae tystiolaeth hefyd wedi dod i law'r Comisiwn y gall fod prinder gwybodaeth a sgiliau priodol ymysg rhai ymarferwyr yn y maes cynllunio defnydd tir o ran egwyddorion cynllunio ieithyddol. Yn yr un modd, cydnabyddir hefyd fod prinder gwybodaeth a sgiliau priodol ymysg rhai ymarferwyr cynllunio ieithyddol parthed y maes cynllunio defnydd tir.

**Argymhelliad 14: Dylai Llywodraeth Cymru gydweithio gyda RTPI (Y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol), cynllunwyr iaith a phrifysgolion i adolygu'r ddarpariaeth addysg uwch er mwyn sicrhau bod ymarferwyr, graddedigion a myfyrwyr yn meddu ar sgiliau priodol yn y maes cynllunio ieithyddol mewn perthynas â chynllunio defnydd tir.**

## 10. Rhestr argymhellion

**Argymhelliad 1:** Dylid darparu fframwaith clir ar gyfer asesu effeithiau cais cynllunio ar ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch yn yr un modd ag a wneir ar gyfer asesu effeithiau cais cynllunio ar Ardaloedd Cadwraeth Arbennig. Yn ddelfrydol, dylid gwneud hyn mewn deddfwriaeth. Os nad yw hyn yn ddichonadwy, dylid diwygio *Polisi Cynllunio Cymru* i gynnwys y fframwaith newydd.

**Argymhelliad 2:** Dylid diwygio *Nodyn Cyngor Technegol 20* i roi arweiniad manwl ar sut i ddarparu asesiad cynhwysfawr o effeithiau cais cynllunio ar ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch, a'r mathau o gamau a all liniaru effeithiau andwyol yn effeithiol.

**Argymhelliad 3:** Dylai deddfwriaeth neu *Polisi Cynllunio Cymru* ddatgan fod angen i ddatblygwr ddarparu asesiad annibynnol o effeithiau ei gais cynllunio ar y Gymraeg os yw'r awdurdod cynllunio o'r farn wedi proses sgrinio ei bod yn debygol y bydd y cais yn cael effaith arwyddocaol ar y Gymraeg y tu allan i ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch.

**Argymhelliad 4:** Dylai deddfwriaeth neu *Polisi Cynllunio Cymru* ddatgan fod angen i'r sawl sy'n penderfynu cais cynllunio roi sylw arbennig i bwysigrwydd ffyniant y Gymraeg wrth ystyried a ddylid rhoi caniatâd cynllunio i ddatblygiad sy'n debygol o gael effaith arwyddocaol ar y Gymraeg y tu allan i ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch.

**Argymhelliad 5:** Dylid diwygio *Nodyn Cyngor Technegol 20* er mwyn cynnig arweiniad manwl ar yr hyn sy'n ofynnol er mwyn rhoi 'sylw arbennig' i bwysigrwydd ffyniant y Gymraeg y tu allan i ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch yn yr amgylchiadau a ddisgrifir yn Argymhelliad 4.

**Argymhelliad 6:** Dylid cryfhau *Polisi Cynllunio Cymru* o safbwynt y Gymraeg drwy gynnwys arweiniad mwy clir a manwl ar y testun 'Y Gymraeg a Chreu Lleoedd'. Ymhlith y newidiadau a argymhellir gan y Comisiwn, dylid cynnwys ffyniant y Gymraeg fel un o'r Egwyddorion Cynllunio Allweddol ac esbonio sut y dylai'r system gynllunio gwlad a thref weithredu'r egwyddorion cynllunio ieithyddol yn strategaeth *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr*.

**Argymhelliad 7:** Dylai'r fframwaith newydd ar gyfer darparu asesiad o effeithiau arwyddocaol cais cynllunio ar ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch gael ei ddefnyddio ar gyfer pob cais cynllunio sy'n debygol o gael effeithiau arwyddocaol o'r fath. Ni ddylid cyfyngu'r fframwaith newydd i geisiadau cynllunio am ddatblygiadau mawr na ddyrannwyd mewn cynllun datblygu.

**Argymhelliad 8:** Os yw'r awdurdod cynllunio o'r farn wedi proses sgrinio ei bod yn debygol y bydd cais cynllunio yn cael effeithiau arwyddocaol ar y Gymraeg y tu allan i ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch, dylai'r datblygwr baratoi asesiad o'r effeithiau hynny. Ni ddylai *Polisi Cynllunio Cymru* ddatgan fod yr angen am asesiad wedi ei gyfyngu i geisiadau ar gyfer hap-safleoedd.

**Argymhelliad 9:** Dylid adolygu a diwygio *Nodyn Cyngor Technegol 20* yn ei gyfanrwydd er mwyn rhoi cyngor ac arweiniad mwy penodol ar sut i baratoi asesiadau effaith ar y Gymraeg ar gyfer mathau gwahanol o ddatblygiadau. Dylai'r cyngor hwn hefyd roi arweiniad penodol ar gamau lliniaru a gwella wedi eu teilwra ar gyfer datblygiadau o fathau gwahanol.

**Argymhelliad 10:** Dylai Llywodraeth Cymru adolygu Nodiadau Cyngor Technegol 3, 4, 6, 13, 18, 23 a 24 i sicrhau fod ystyriaeth briodol yn cael ei rhoi ynddynt i'r fframwaith polisi newydd ar gyfer ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch.

**Argymhelliad 11:** Dylid adolygu *Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040* yng ngoleuni dynodiad statudol newydd o ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch er mwyn rhoi ystyriaeth lawnach i ddsbarthiad gofodol siaradwyr y Gymraeg a goblygiadau hynny ar gyfer y fframwaith datblygu cenedlaethol.

**Argymhelliad 12:** Dylid ychwanegu cyfeiriad at y Gymraeg a chymunedau Cymraeg ym Mholisi 19 *Cymru'r Dyfodol*, a chynnwys arweiniad ar gyfer cyd-bwyllgorau corfforedig wrth iddynt ddarparu cynlluniau datblygu strategol o ran y polisïau a fyddai'n cyfrannu at ffyniant cymunedau Cymraeg.

**Argymhelliad 13:** Dylai Llywodraeth Cymru adolygu a diwygio cynnwys y *Llawlyfr Cynlluniau Datblygu* i gynnwys arweiniad llawer mwy manwl a chynhwysfawr ar yr ystyriaeth a roddir i'r Gymraeg wrth lunio cynlluniau datblygu. Fel rhan o'r adolygiad hwn, dylai Llywodraeth Cymru ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg i sicrhau fod y llawlyfr diwygiedig yn rhoi sylw dyladwy i safonau llunio polisi'r Gymraeg ac yn rhoi arweiniad manwl ar sut i gydymffurfio â hwy wrth lunio, adolygu neu addasu polisïau mewn cynlluniau datblygu.

**Argymhelliad 14:** Dylai Llywodraeth Cymru gydweithio gyda RTPI (Y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol), cynllunwyr iaith a phrifysgolion i adolygu'r ddarpariaeth addysg uwch er mwyn sicrhau bod ymarferwyr, graddedigion a myfyrwyr yn meddu ar sgiliau priodol yn y maes cynllunio ieithyddol mewn perthynas â chynllunio defnydd tir.